Cystadleuaeth Ffotograffiaeth i'r Teulu

Cymru Anhysbys 2020

Cymerwch ran yn ein Cystadleuaeth Ffotograffiaeth i'r Teulu Cymru Anhysbys 2020 drwy bostio eich ffotograffau natur i ni gyda'r hashnod #CymruAnhysbys #UnknownWales! Neu e-bostiwch UWPhotoComp@amgueddfacymru.ac.uk. Rhaid anfon eich ceisiadau erbyn 23 Hydref 2020. Cyhoeddir enw'r enillydd ar ddydd Iau 29 Hydref 2020, yr un dydd â sgyrsiau natur Cymru Anhysbys.

Cymru Anhysbys 2020 Unknown Wales

YMDDIRIEDOLAETH natur WILDLIFE TRUST South and West Wales De a Gorllewin Cymru

Dydd Iau 29 Hydref
Thursday 29 October

national museum wales amgueddfa cymru

Mae'r wobr yn cynnwys mêl o wenyn sy'n byw ar do Amgueddfa Cymru Caerdydd, hadau gwyllt a gwasg planhigion.

Tynnwch ffotograff neu anfonwch ffotograff rydych wedi'i dynnu yn ystod y cyfnod clo. Dywedwch wrthym pam eich bod wedi dewis y ffotograff hwnnw a'r stori gysylltiedig.

- Welsoch chi rywbeth nad oeddech chi wedi'i weld o'r blaen?
- Neu ai rhywbeth rydych chi'n ei weld drwy'r amser oedd e ond ei fod yn edrych yn wych yn yr haul?
- Ai dyma'ch hoff flodyn neu bry?

Er mwyn cael ychydig o ysbrydoliaeth, beth am ddefnyddio'r taflenni bingo wnaethon ni eu cyhoeddi yn 2020 o #NaturArEichStepenDrws! Roedd rhai eitemau bingo yn amlwg iawn, er enghraifft gwlithen. Ond allwch chi ddod o hyd i wlithen mewn tywydd sych? Roedd rhai yn fwy creadigol ac yn gofyn i chi edrych am batrymau a gweadau ym myd natur. Gallai 'cartref' fod yn falwen yn cario'i chragen, neu bryf lludw yn cuddio o dan bot planhigion.

Cystadleuaeth ar gyfer preswylwyr y DU yn unig.

Mwy o Ysbrydoliaeth! ↘ ↘ ↘